## Yr hyn a ganfuom

15 Ar y cyfan, canfuom **nad oes gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr i'w sicrhau ei hun ei fod yn gyson yn sicrhau gwerth am arian pan fo'n comisiynu gwasanaethau**. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

16 Mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae darpariaeth fewnol yn bodoli'n barod, y dylai gwasanaethau gael eu darparu trwy drefniadau mewnol oni bai nad oes capasiti ganddo. Mae gan y Cyngor hefyd broses adolygu gwasanaethau i roi cymorth i gyflawni ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Rydym wedi archwilio'r trefniadau hyn yn ein harchwiliad.

17 Mae trefniadau'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn deall y gwasanaeth y mae'n bwriadu ei gomisiynu. Roedd y Cyngor wedi diffinio'r gwasanaeth yr oedd yn bwriadu ei gomisiynu ar gyfer y ddau faes gwasanaeth a archwiliwyd. Nodwyd hyn mewn adroddiad i'r Cabinet ar ddechrau'r broses gomisiynu. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys y sefyllfa gyfredol, deilliannau bwriadedig y gwasanaeth a chanlyniadau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae bod â dealltwriaeth eglur pam fod gwasanaethau'n cael eu comisiynu, ac am yr hyn y maent wedi'u bwriadu i'w gyflawni, yn elfennau pwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

18 Nid yw'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth gynnal arfarniadau cynhwysfawr o'r opsiynau fel rhan o'i drefniadau comisiynu. Dim ond un o'r gwasanaethau a archwiliwyd gennym ni oedd wedi ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer darparu'r gwasanaeth. Fe wnaeth y Cyngor ystyried manteision, costau, ffynonellau cyllid a risgiau mawr posibl ar gyfer pob opsiwn. Mae'n bwysig bod ystod o opsiynau comisiynu gwahanol yn cael eu hasesu'n gynhwysfawr i helpu i ddewis yr opsiwn ar gyfer darparu'r gwasanaeth sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian.

19 Nid yw'r Cyngor wastad yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth ystyried beth mae hirdymor yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau na sut y bydd yn taro cydbwysedd rhwng anghenion tymor hwy a byrdymor. Roedd y ddau wasanaeth a archwiliwyd gennym ni'n gallu egluro sut yr oeddent wedi meddwl am gynllunio tymor hwy mewn perthynas â phenderfyniadau comisiynu, ond nid oedd y naill na'r llall wedi ystyried y cydbwysedd rhwng diwallu anghenion byrdymor a diwallu anghenion hirdymor. Mae rhoi ystyriaeth yn gyson i oblygiadau byrdymor a goblygiadau tymor hwy wrth wneud penderfyniadau comisiynu'n lleihau'r risg o beidio â chyflawni gwerth am arian dros y tymor hwy.

20 Nid yw trefniadau'r Cyngor wastad yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth asesu'r adnoddau y mae eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth dros y tymor byr, canolig a hir (costau oes gyfan) wrth gomisiynu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd y ddau faes gwasanaeth a archwiliwyd gennym ni'n gallu dangos dealltwriaeth am gostau oes gyfan y gwasanaethau. Trwy beidio â sicrhau'n gyson y datblygir dealltwriaeth am oblygiadau byrdymor a thymor hwy penderfyniadau comisiynu o ran adnoddau, ceir risg na fydd y Cyngor yn cyflawni gwerth am arian dros y tymor hwy.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | **Cryfhau trefniadau comisiynu**<br>Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau i'w sicrhau ei hun bod penderfyniadau comisiynu'n cael eu siapio'n gyson gan:<br>• arfarniad o'r holl opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth o safbwynt darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd dros y tymor byr a hwy (para 18);<br>• cynllunio dros raddfa amser briodol (para 19);<br>• dealltwriaeth am y goblygiadau hirdymor o ran adnoddau (para 20);<br>• cynnwys y bobl a'r partneriaid iawn i ddylanwadu ar ddylunio a darparu'r gwasanaeth (para 24) |
| A2 | **Cydymffurfio â'i drefniadau comisiynu**<br>Er mwyn sicrhau bod dull comisiynu corfforaethol y Cyngor yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws meysydd gwasanaeth, dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau i fonitro'r modd y cydymffurfir ag ef. (Paragraffau 18, 19, 20) |
| A3 | **Adolygu trefniadau comisiynu'r Cyngor**<br>Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn adnabod cyfleoedd i wella gwerth am arian, dylai fynd ati'n rheolaidd i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau comisiynu corfforaethol (para 25). |

